OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 2092 (Cy. 242)

# PRIFFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Bryn-mawr i Dredegar) (Diwygio) 2012

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999(3) mewn cysylltiad â'r darn rhwng Bryn-mawr a Thredegar (a elwir Adran 3); mae'n darparu hefyd ar gyfer rhai newidiadau i'r trefniadau o ran cyffyrdd ac yn darparu cilfan o fewn y darn hwnnw.

Mae erthygl 2 yn diwygio'r disgrifiad o'r plan a adneuwyd yng Ngorchymyn 1999 mewn cysylltiad â llinell Adran 3 o'r gefnffordd newydd drwy roi yn lle Cynllun Allweddol 1, Cynllun Safle 4 a Chynllun Safle 5 yn y plan presennol a adneuwyd Gynllun Allweddol 1A, Cynllun Safle 4A a Chynllun Safle 5A yn y plan a adneuwyd fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn hwn.

Mae erthygl 3 yn diwygio Atodlen 2 o Orchymyn 1999 mewn cysylltiad ag Adran 3 drwy fewnosod disgrifiadau diwygiedig o'r ffyrdd ymuno ac ymadael sydd i'w darparu.

Mae erthygl 4 yn diwygio Atodlen 4 o Orchymyn 1999 drwy fewnosod disgrifiad diwygiedig o'r darn o gefnffordd a fydd yn peidio â bod yn gefnffordd ar ôl cwblhau Adran 3.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 2092 (Cy. 242)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Bryn-mawr i Dredegar) (Diwygio) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *10 Awst 2012* |
| *Yn dod i rym* | *23 Awst 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 10 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1), a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Bryn-mawr i Dredegar) (Diwygio) 2012 a daw i rym ar 23 Awst 2012.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr y "Prif Orchymyn" ("*Principal Order*") yw Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd –Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999(3) .

**2**. Yn erthygl 6 o'r Prif Orchymyn, yn lle paragraff (2)(i) rhodder y canlynol –

“(2)(i) ystyr “y plan a adneuwyd” yw'r plan sydd wedi ei rifo HA10/2 WO131 a’i farcio “Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999” fel y'i newidiwyd o ran Plan Allweddol 1, Plan Safle 4 a Phlan Safle 5 i Blan Allweddol 1A, Plan Safle 4A a Phlan Safle 5A yn y plan sydd wedi ei rifo HA10/2 WG7 a’i farcio “Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o’r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Ghorchymyn Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Bryn-mawr i Dredegar) (Diwygio) 2012” a lofnodwyd (rifio qA965513) ar ran Gweinidogion Cymru ac a adneuwyd yn Uned Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**3**. Yn Atodlen 2 o'r Prif Orchymyn, hepgorer paragraffau 7 i 12 ac mewnosoder –

“7. Llwybr sy'n rhyw 0.89 cilometr o hyd, sy'n cychwyn wrth bwynt ar ochr ogleddol y gefnffordd bresennol (yr A465) oddeutu 570 o fetrau i'r gorllewin o'r danffordd amaethyddol ar Waun Rhydd, Garn Lydan ac yn rhedeg tua’r gogledd-ddwyrain yn gyffredinol, ac wedyn tua’r dwyrain i gwrdd â lôn gerbydau’r brif gefnffordd newydd tua’r dwyrain 290 o fetrau i'r dwyrain o’r danffordd amaethyddol ar Waun Rydd, Garn Lydan, (rhoddir y cyfeirnod 15 i’r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan a adneuwyd ar Blan Safle Rhif 4A (fel y'i diwygiwyd)).

8. Llwybr sy'n rhyw 0.6 cilometr o hyd, sy'n cychwyn wrth bwynt ar ochr ddeheuol y gefnffordd bresennol (A465) oddeutu 570 o fetrau i'r gorllewin o'r danffordd amaethyddol ar Waun Rhydd, Garn Lydan ac yn rhedeg tua’r gogledd-ddwyrain yn gyffredinol i gwrdd â lôn gerbydau’r brif gefnffordd newydd tua’r gorllewin 50 o fetrau i'r dwyrain o’r danffordd amaethyddol ar Waun Rydd, Garn Lydan (rhoddir y cyfeirnod 16 i’r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan a adneuwyd ar Blan Safle rhif 4A (fel y'i diwygiwyd)).

9. Cyffordd aml-lefel â ffordd fewnol Ystad Ddiwydiannol Rasa mewn man tua phwynt canol Ystad Ddiwydiannol Rasa. (Plan Safle rhif 5A (fel y'i diwygiwyd)).

Dau lwybr sy'n wynebu tua'r dwyrain ryw 0.27 cilometr a 0.12 cilometr eu hyd i gysylltu lonydd

cerbydau’r brif gefnffordd newydd tua’r gorllewin a thua'r dwyrain yn ôl eu trefn, y cyntaf â chylchfan sydd i’w hadeiladu fel rhan o’r briffordd y darperir ar ei chyfer yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl cysylltiedig, o fewn Ystad Ddiwydiannol Rasa ac i'r gogledd o Fferm Herrington, Rasa, y llall â ffordd fewnol bresennol Ystad Ddiwydiannol Rasa sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl cysylltiedig (rhoddir y cyfeirnodau 17 a 18 yn ôl eu trefn i’r cefnffyrdd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan a adneuwyd ar Blan Safle Rhif 5A (fel y'i diwygiwyd)).

10. Cyffordd aml-lefel rhwng y ddau eiddo o'r enw Hirgan Farm a The Wells Farm, Beaufort Wells i'r de-orllewin o Ystad Ddiwydiannol Rasa (Plan Safle rhif 5A ( fel y'i diwygiwyd)).

11. Dau lwybr sy’n rhyw 0.26 cilometr a 0.47 cilometr eu hyd a , sy'n wynebu tua'r gorllewin, i gysylltu lonydd cerbydau’r brif gefnffordd newydd tua’r gorllewin a thua'r dwyrain, â'r gylchfan sydd i’w hadeiladu fel rhan o’r briffordd y darperir ar ei chyfer yn y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl cysylltiedig, i’r de-orllewin o’r eiddo a elwir The Wells Farm ac i’r gogledd a elwir Hirgan Farm, Beaufort Wells (rhoddir y cyfeirnodau 19 ac 20 yn ôl eu trefn i’r cefnffyrdd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan a adneuwyd ar Blan Safle Rhif 5A (fel y'i diwygiwyd)). Mae'r llwybr, sydd â'r cyfeirnod 19, yn cychwyn wrth bwynt wrth gylchfan newydd 100 o fetrau i'r gogledd o'r ffermdy yn Hirgan Farm, ac yn terfynu wrth bwynt lle y mae'n cwrdd â lôn gerbydau’r brif gefnffordd newydd tua'r gorllewin 200 o fetrau i'r de-orllewin o'r ffermdy.

Mae'r llwybr, sydd â'r cyfeirnod 20, yn cychwyn wrth bwynt wrth gylchfan newydd 140 o fetrau i'r gogledd o'r ffermdy yn Fferm Hirgan, ac yn terfynu wrth bwynt lle y mae'n cwrdd â lôn gerbydau’r brif gefnffordd newydd tua'r dwyrain 350 o fetrau i'r de-orllewin o'r ffermdy.

12. Cyffordd aml-lefel â’r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain tua'r gogledd a'r A4048 sy'n arwain tua'r de o gylchfan bresennol Nant-y-Bwch. (Planiau Safle sy'n dwyn y rhifau 5 a 6 ar y plan a adneuwyd, sef plan Gorchymyn 1999 sy'n dwyn y rhif HA/10/2 – WO131).

Pedwar llwybr i gysylltu lôn gerbydau’r prif gefnffordd newydd tua’r gorllewin a thua'r dwyrain â chylchfan sydd i’w hadeiladu fel rhan o’r briffordd y bwriedir darparu ar ei chyfer mewn Gorchymyn Ffyrdd Ymyl cysylltiedig yng nghyffiniau’r gylchfan bresennol yn Nant-y-Bwch. Rhoddir y cyfeirnodau 21 a 22 yn ôl eu trefn i’r cefnffyrdd newydd ar hyd y llwybrau hyn ar y plan a adneuwyd ar Blan Safle rhif

5A (fel y'i diwygiwyd) a'r cyfeirnodau 23 a 24 ar y plan a adneuwyd ar Blan Safle rhif 6 sy'n aros heb eu newid fel a ddangosir ar y plan a adneuwyd, sef plan Gorchymyn 1999 sy'n dwyn y rhif HA/10/2 – WO131, a'r rheini'n gefnffyrdd sydd wedi eu hadeiladu o dan y Gorchymyn hwnnw. Y llwybr, cyfeirnod 21, rhyw 0.26 cilometr ei hyd sy'n cychwyn wrth bwynt ar ochr dde-ddwyreiniol cylchfan Nant-y-Bwch ac sy'n terfynu lle y mae'n cwrdd â lôn gerbydau'r brif gefnffordd newydd tua'r gorllewin 260 o fetrau i'r dwyrain o'r gylchfan. Y llwybr, cyfeirnod 22, rhyw 0.32 gilometr ei hyd sy'n cychwyn wrth bwynt ar ochr ogledd-ddwyreiniol cylchfan Nant-y-Bwch ac sy'n terfynu lle y mae'n cwrdd â lôn gerbydau'r brif gefnffordd newydd tua'r dwyrain 320 o fetrau i'r dwyrain o'r gylchfan."

**4**. Yn lle'r disgrifiad ym mharagraff (i) o Atodlen 4 o'r Prif Orchymyn, rhodder y canlynol—

"(i) y darn hwnnw o'r llwybr ar yr A465 bresennol, gan ddechrau wrth bwynt rhyw 570 o fetrau i'r de-orllewin o'r danffordd amaethyddol ar Rydd, Garn Llydan (wedi ei farcio'n AA ar y plan a adneuwyd ar Blan Safle Rhif 4A (fel a ddiwygiwyd)) ac yn ymestyn tua'r de-orllewin yn gyffredinol am bellter o ryw 3.2 gilometr, a chan gynnwys cylchfan Glyn Ebwy a chylchfan Rasa (wedi ei farcio BB ar y plan a adneuwyd ar Blan Safle Rhif 5A (fel y'i diwygiwyd))."

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

10 Awst 2012

*Richard Morgan*

RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1980 p.66.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn bellach wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1999/2720 (Cy.9)

**DEDDF PRIFFYRDD 1980**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD — Y FENNI (A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A FFORDD MAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON — MAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (A4060) A CHEFNFFORDD CAERDYDD — GLANCONWY (A470) (FFYRDD CYSYLLTU) 1999, (BRYN-MAWR I DREDEGAR) (DIWYGIO) 2012**
**A**
**GORCHYMYN CEFNFFORDD CASTELL-NEDD I'R FENNI (YR A465) (DEUOLI O'R FENNI I HIRWAUN A'R FFYRDD YMUNO AC YMADAEL) A CHEFNFFORDD MAN I'R DWYRAIN O ABERCYNON I FAN I'R DWYRAIN O DDOWLAIS (YR A4060) A CHEFNFFORDD CAERDYDD I LANCONWY (YR A470) (FFYRDD CYSYLLTU) (BRYN-MAWR I DREDEGAR) (FFYRDD YMYL) 2012**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud y Gorchmynion canlynol:-

1. Gorchymyn o dan adran 10 o Ddeddf Priffyrdd 1980 i ddiwygio Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd — Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon — Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd — Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (O.S. 1999/2720) ("Gorchymyn 1999") mewn cysylltiad â'r darn rhwng Bryn-mawr a Thredegar ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, a elwir Adran 3, drwy

a. diwygio llinell Adran 3 fel a ddangosir drwy newidiadau i'r plan a adneuwyd, gan gynnwys newidiadau i'r trefniadau o ran cyffyrdd a darparu cilfan;

b. diwygio'r disgrifiadau o'r ffyrdd ymuno ac ymadael sydd i'w darparu mewn cysylltiad ag Atodlen 3; ac

c. diwygio'r disgrifiad o'r darn o gefnffordd sy'n peidio â bod yn gefnffordd o dan Orchymyn 1999; a

2. Gorchymyn o dan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn awdurdodi Gweinidogion Cymru:-

(a) i wneud gwaith i wella priffyrdd;

(b) i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;

(c) i adeiladu priffyrdd newydd;

(d) i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd;

(e) i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd; ac

(f) i ddarparu priffordd dros dro

rhwng Bryn-mawr a Thredegar ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent; ac

yn darparu ar gyfer trosglwyddo'r priffyrdd newydd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Cyngor eu bod wedi eu cwblhau a'u bod ar agor ar gyfer traffig trwodd.

Gellir Archwilio copïau o'r Gorchmynion, a Gorchymyn 1999, a'r planiau cysylltiedig yn ddi-dâl yn ystod unrhyw oriau rhesymol o 23 Awst 2012 tan 04 Hydref 2012, neu o fewn 6 wythnos i ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn, pa bynnag gyfnod a ddaw i ben ddiwethaf, yn y swyddfeydd canlynol:

- Y Gangen Orchmynion , Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Swyddfeydd y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig, Glyn Ebwy NP23 6XB

- Cyngor Tref Tredegar
  Ty Bedwellte, Parc Bedwellte, Tredegar NP22 3XN

- Canolfan Cymunedol Bryn-mawr,
  Orchard Street, Bryn-mawr NP23 4ET

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys LD3 7HP.

Mae'r Gorchymyn, sy'n dwyn yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd — Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon — Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd — Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Brynmawr I Dredegar) (Diwygio) 2012', OS 2012 Rhif 2092 (Cy. 242), wedi ei gyhoeddi gan

TSO (Y Llyfrfa) a gellir prynu copïau ohono ar lein oddi wrth www.tsoshop.co.uk **neu TSO @Blackwell;** www.tso.co.uk/contact/bookshops/agents/cardiff/ ac Asiantau Achrededig eraill.

Gellir cael copïau o'r Gorchymyn, sy'n dwyn yr enw 'Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd — Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon — Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd — Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) (Brynmawr I Dredegar) (Ffyrdd Ymyl) 2012' gan Lywodraeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir oherwydd gwneud y naill neu'r llall o'r Gorchmynion ac sy'n dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn hwnnw ar y sail nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad o'r Ddeddf honno, neu o reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno, mewn perthynas â'r Gorchmynion, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos ar ôl 23 Awst 2012, neu o fewn 6 wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad hwn, pa bynnag gyfnod a ddaw i ben ddiwethaf, am atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchmynion neu unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir ynddynt.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Llinell a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchmynion Llinell y Ddeddf Priffyrdd', '2012').

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (dewiser 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth, Cymru', 'Ymylon Ffyrdd a Gorchmynion Prynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd', '2012')

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru